Gwybod am Goed

Dyma restr o 10 o goed cyffredin Cymru.

Chwiliwch mewn geiriadur neu lyfr addas arall am yr enw Saesneg yna ysgrifennwch hwnnw wrth ochr pob un. Byddwch wedyn yn medru chwilio am fwy o wybodaeth mewn llyfrau a safleoedd gwe yn y ddwy iaith.

	Cymraeg	***Saesneg***		**Cymraeg**	***Saesneg***
1	Bedwen	.....	**6**	Derwen	.....
2	Castanwydden	.....	**7**	Draenen	.....
3	Celynnen	.....	**8**	Gwernen	.....
4	Collen	.....	**9**	Masarnen	.....
5	Criafolen	.....	**10**	Ywen	.....

Faint wyddoch chi am y coed hyn?
Dewiswch y goeden gywir fel ateb i'r cwestiynau canlynol ac ysgrifennwch yr enw yn y blwch lliw.

1	Rydym ni a'r wiwer yn hoffi bwyta cnau y goeden hon.	.....
2	Mae rhisgl y goeden hon yn olau fel arian.	.....
3	Mae hi'n byw yn hen ac yn aml yn tyfu wrth yr eglwys.	.....
4	Diolch i hon am goncyrs i chwarae â nhw yn yr hydref.	.....
5	Roedd pobl ers talwm yn coelio ei bod hi'n cadw'r diafol i ffwrdd.	.....
6	Enw ffrwythau'r goeden hon yw *mes.*	.....
7	*Sycamorwydden* ydy enw arall y goeden hon.	.....
8	Hon sy'n rhoi aeron coch i ni i addurno ein cartrefi at y Nadolig.	.....
9	Gallwch ddod o hyd i hon yn tyfu mewn tir gwlyb.	.....
10	Gwyliwch eich bysedd – mae gan hon hen bigau cas.	.....

Atebion A

	Saesneg		***Saesneg***
1	Birch	6	Oak
2	Chestnut	7	Thorn (Haw- / Black-)
3	Holly	8	Alder
4	Hazel	9	Sycamore
5	Rowan Mountain Ash	10	Yew

Atebion B

1	Collen	6	Derwen
2	Bedwen	7	Masarnen
3	Ywen	8	Celynnen
4	Castanwydden	9	Gwernen
5	Criafolen	10	Draenen